

Pennaeth/Swyddog Monitro Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol



Ymunwch â ni yng Nghyngor Bro Morgannwg, lle mae ein gwerthoedd craidd o fod yn agored, undod, balchder ac uchelgais yn llywio ein cenhadaeth i esblygu a gwella ein gwasanaethau ar gyfer y gymuned amrywiol rydym yn ei gwasanaethu. Fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, byddwch yn arwain gydag uchelgais, gan osod safonau uchel ac archwilio dulliau arloesol o arfer cyfreithiol a llywodraethu.

Y Rôl:

Gyda balchder yn gwasanaethu ein cymunedau, byddwch yn cynnal y safonau uchaf o lywodraethu, moeseg a phroffesiynoldeb. Dathlu cyflawniadau a meithrin diwylliant o gydnabyddiaeth a balchder o fewn y timau Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys cyflawni dyletswyddau statudol fel y Swyddog Monitro, darparu cyngor cyfreithiol arbenigol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a sicrhau rhagoriaeth weithredol ar draws ystod eang o faterion cyfreithiol.

Dyma gyfle i arwain ac ysbrydoli, bod yn aelod o arweinyddiaeth strategol y Cyngor a llunio ei ddiwylliant o berfformiad ac arloesi. Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol cyfreithiol profiadol sydd wedi ymrwmo i wasanaeth cyhoeddus ac yn cael eich ysgogi gan awydd i gael effaith ystyrlon, rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni ar y daith gyffrous hon o drawsnewid a chynnydd.

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 8 Ebrill 2024





Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

Croeso i Gyngor Bro Morgannwg, lle gallwch fwynhau'r cyfuniad perffaith o gydbwysedd bywyd gwaith a chymuned fywiog. Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym yn cynnig amgylchedd gwaith boddhaus sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein diwylliant a'n gwerthoedd, tra bod y sir ei hun yn darparu cefndir o harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, ac ymdeimlad cryf o berthyn.

Yn swatio yng nghanol tirweddau syfrdanol De Cymru, yma, fe welwch nid yn unig weithle, ond cymuned sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn llywodraethu a diogelu egwyddorion democrataidd.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym yn cydnabod rôl hanfodol gwasanaethau cyfreithiol a democrataidd wrth adeiladu cymunedau cryf a gwydn gyda dyfodol disglair. O ddiogelu hawliau ein preswylwyr i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw, mae ein hymrwymiad i'r gwasanaethau hyn yn ddiwyro.

Mae ein llwyddiant fel un o'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru wedi'i ategu gan ein hymroddiad i arloesi a thrawsnewid. Rydym yn croesawu dyfeisgarwch a chydweithio i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon amrywiol ein cymunedau, dan arweiniad ymrwymiad cadarn i'r gyfraith a gwerthoedd democrataidd.

Gyda phoblogaeth yn fwy na 130,000 o drigolion, mae Cyngor Bro Morgannwg yn chwarae rhan ganolog wrth lunio bywydau ein dinasyddion. P'un a yw'n rhoi cyngor cyfreithiol neu'n hwyluso ymgysylltiad democrataidd, mae ein heffaith yn atseinio ledled pob cornel o'n sir.

Fel sefydliad, rydym yn cael ein hysgogi yrru gan weledigaeth glir a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2025. O fewn y fframwaith hwn, mae'r rôl hon yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a democrataidd sydd nid yn unig yn diwallu anghenion ein cymunedau ond sydd hefyd yn cyfrannu at eu lles cyffredinol. Trwy ein Hamcanion Lles, rydym wedi ymrwymo i feithrin llywodraethu cynhwysol, cefnogi twf economaidd cynaliadwy, a chadw uniondeb amgylcheddol ein rhanbarth.

Fel corff cyhoeddus, rydym yn cymryd effaith hirdymor ein penderfyniadau o ddifrif. Rydym yn ystyried yn gyson sut y bydd ein gweithredoedd yn siapio'r dyfodol, gan sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein Hamcanion Lles yn cyd-fynd â'i gilydd, gan greu synergedd sy'n ein gyrru tuag at ddyfodol mwy disglair, mwy llewyrchus i bawb.

Ein Gwerthoedd



Cofleidio Bod yn Agored, Uchelgeisiol, Gyda'n Gilydd a Balch: Ein gwerthoedd craidd yng Nghyngor Bro Morgannwg

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, nid geiriau ar dudalen yn unig yw ein gwerthoedd—nhw yw'r pileri sy'n llywio ein gweithredoedd, ein penderfyniadau, a'n rhyngweithiadau. Rydym yn llwyr gredu mewn Bod yn Agored, Uchelgeisiol, Gyda'n Gilydd a Balch, ac rydym yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn.

AGORED:

Rydym yn meithrin amgylchedd o dryloywder a hygyrchedd. Rydym yn credu mewn cyfathrebu agored, lle mae syniadau a gwybodaeth yn llifo'n rhydd. Rydym yn annog deialog, gwranddo gweithredol ac adborth adeiladol. Trwy fod yn agored, rydym yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol ac yn hyrwyddo cydweithio, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.

UCHELGEISIOI:

Rydym yn flaengar ac yn ceisio cofleidio ffyrdd newydd o weithio gyda'n cydweithwyr, partneriaid, trigolion a'r rhai sy'n gwneud busnes ym Mro Morgannwg. Rydym ni'n buddsoddi yn ein dyfodol, boed hynny'n golygu sgiliau ein gweithlu, yr asedau rydym ni'n eu defnyddio neu ein cydberthnasau ag eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a roddir ynom gan ein cymuned ac rydym yn uchelgeisiol i gyflawni rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn ar eu rhan.

GYDA'R GILWYDD:

Cydweithio yw conglaen ein llwyddiant. Rydym yn credu drwy weithio gyda'n gilydd ein bod yn cyflawni mwy. Rydym yn meithrin diwylliant o waith tîm, lle mae unigolion ar draws adrannau a disgyblaethau yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau, rhannu gwybodaeth, a defnyddio eu cryfderau ar y cyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gydag Adnoddau Corfforaethol. Rydym wrthi'n chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys gyda'n hysgolion, ein cymuned, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, gan gydnabod y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith.

BALCH:

Rydym yn ymfalchiö mewn gwasanaethu Bro Morgannwg a'i thrigolion. Rydym yn falch o'n cyflawniadau, yr effaith gadarnhaol a gawn, ac ymroddiad ein tîm. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau, bach a mawr, ac yn cydnabod ymdrechion ein staff i ddarparu gwasanaethau eithriadol. Mae ein balchder yn deillio o'n hymrwymiad i ragoriaeth, ein cyfraniad i'r gymuned, a'n hymroddiad diwyro i wneud gwahaniaeth.

Trwy gofleidio ein gwerthoedd o fod yn Agored, Uchelgeisiol, Gyda'n Gilydd a Balch, rydym yn meithrin amgylchedd gwaith sy'n meithrin ymddiriedaeth, cydweithio ac ymdeimlad o berthyn. Nid ar gyfer rhyngweithio mewnol yn unig y mae'r gwerthoedd hyn — maent yn ymestyn i'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phawb rydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y gwerthoedd hyn ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan sicrhau ein bod yn meithrin perthnasoedd cryf yn seiliedig ar uniondeb, parch a chyflawniadau a rennir.

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol



Trawsnewid i fod y sefydliad y mae ein trigolion a'n cydweithwyr angen i ni fod erbyn 2030: Ymunqch â ni fel y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro).

Rydym yn cychwyn ar gam nesaf ein trawsnewidiad gyda llygad ar y dyfodol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'n Cyngor ac, yn bwysig, y rôl sydd gennym wrth ddarparu cymunedau cryf â dyfodol disglair.

Mae'r swydd hon yn un allweddol i'r Cyngor a bydd yn sicrhau bod ein rhaglen drawsnewid yn y dyfodol, Ail-lunio, yn effeithiol wrth ddarparu Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair a bod ein gwaith yn cael ei ategu gan lywodraethu cryf. Fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, byddwch yn gweithio fel rhan o Dîm Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol i yrru ffyrdd newydd o weithio a darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar ddulliau creadigol ac arloesol o ddarparu gwasanaethau. Yn ddiweddar rydym wedi dechrau ar ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-2030 ac mae'r rôl hon yn cynnig y cyfle perffaith i ddylanwadu ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fel aelod allweddol o Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn rôl y Swyddog Monitro, byddwch yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl Aelodau Etholedig.

Y Tîm Adnoddau Corfforaethol

Mae gan y Cyngor sylfeini cryf i adeiladu ein cam nesaf o newid ac mae'r rôl hon yn un allweddol yn y Tîm Arwain Adnoddau Corfforaethol sydd gyda'i gilydd yn gyfrifol am reoli gwasanaethau corfforaethol rhagorol a galluogi gweithgaredd trawsnewidiol ar gyfer y sefydliad cyfan.

Mae ein Tîm yn cynnwys:

- Tom Bowring – Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
- Matt Bowmer – Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151
- Tracy Dickinson – Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol
- Nicki Johns – Pennaeth Digidol
- Rob Jones – Rheolwr Gweithredol Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Datblygu'r Gyfarwyddiaeth
- Helen Moses - Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Dealltwriaeth Gorfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Rydym yn croesawu model gweithredu targed newydd yn seiliedig ar ein pedwar maes gwasanaeth ac wedi'i alluogi gan y grwpiau cynghori strategol i ddarparu ein gwasanaethau a siapio Cyngor y dyfodol. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cynnwys:

- **Gwasanaethau Cyfreithiol** – Mae'r timau hyn yn gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol ym mhob maes cyfreithiol cysylltiedig gan gynnwys eiddo, ymgyfreitha, llywodraethu gwybodaeth a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r timau'n partneru â chydweithwyr ar draws y sefydliad i ddarparu cymorth cyfreithiol amserol ac effeithlon.
- **Gwasanaethau Democrataidd** – mae'r timau hyn yn darparu cefnogaeth ddemocrataidd i aelodau etholedig, gan gynnwys darparu cefnogaeth o'r radd flaenaf i'r Cabinet a'r Pwyllgor. Mae'r gwasanaeth Cofrestru hefyd wedi'i leoli o fewn y Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am gofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os hoffech drafod y cyfle hwn yn fanylach ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.


Rob Thomas, Prif Weithredwr

Tom Bowring, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol



Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro)

Proffil Rôl



Teitl y Swydd	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	
Cyfeirnod y Swydd	X-LGLG100	
Gradd	Pennaeth Gwasanaeth	
Cyfarwyddiaeth	Adnoddau Corfforaethol	
Lleoliad	Swyddfeydd Dinesig a Gweithio o Bell	
Yn atebol i	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd); Prif Weithredwr (dyletswyddau Swyddog Monitro Statudol)	
Yn gyfrifol am	Gwasanaethau Cyfreithiol Gwasanaethau Democrataidd	
Trosolwg o'r Rôl	<p>Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwmo i greu diwylliant sy'n ymgorffori ein hegwyddorion sylfaenol sef Bod yn Agored, Agosatrwydd, Balchder ac Uchelgais. Rydym ar genhadaeth i esblygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gwasanaethu ein cymuned amrywiol, gan sicrhau amgylchedd teg a llewyrchus i'n holl breswylwyr.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am arweinydd medrus a rhagweithiol ar gyfer rôl Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a fydd hefyd yn cyflawni swyddogaeth hanfodol y Swyddog Monitro statudol. Mae'r rôl hon yn hanfodol wrth ddarparu goruchwyliaeth strategol a chynnal cydymffurfiaeth statudol. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arbenigwr cyfreithiol profiadol sy'n ymrwymedig i wasanaeth cyhoeddus ac ysgogi trawsnewid yn unol â'n gwerthoedd.</p>	
Ein Gwerthoedd	Ymddygiad	Beth mae'n ei olygu i ni
UCHELGEISOL	Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol	<ul style="list-style-type: none">● Fel y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, byddwch yn dangos meddylfryd blaengar trwy archwilio dulliau arloesol.● Gosod safonau uchel ar gyfer y timau Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau.● Ceisio cyfleoedd ar gyfer twf a datblygiad o fewn y fframwaith cyfreithiol a democrataidd, gan sicrhau cysondeb â'n nodau strategol.
AGORED	Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud	<ul style="list-style-type: none">● Meithrin cyfathrebu clir yn fewnol ac yn allanol fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.● Gwrando'n weithredol, gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol, a chreu amgylchedd lle mae syniadau'n llifo'n rhydd.

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro)

Proffil Rôl (parhau)



GYDA'N GILYDD	Ymddygiad Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon	Beth mae'n ei olygu i ni <ul style="list-style-type: none">• Annog cydweithio a gweithio mewn tîm o fewn y timau Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.• Adeiladu perthynas gref gyda chydweithwyr, aelodau etholedig, rhanddeiliaid a phartneriaid.• Meithrin partneriaethau a chynghreiriau i wella effeithiolrwydd prosesau cyfreithiol a democrataidd.
BALCH	Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal y safonau uchaf o lywodraethu, moeseg a phroffesiynoldeb.• Ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau cyfreithiol a democrataidd o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y gymuned ac yn cynnal enw da'r Awdurdod Lleol.• Dathlwch gyflawniadau a chyfraniadau, gan feithrin diwylliant o falchder a chydabyddiaeth o fewn y Timau Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

DISGRIFIAD SWYDD

Fel Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, byddwch yn:

Rhwymedigaethau Statudol a Chyfreithiol:

- Cyflawni dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro, gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth â gofynion statudol, cynghori ar faterion llywodraethu, a hyrwyddo ymddygiad moesegol a thryloywder o fewn y Cyngor. **(Yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989)**
- Rhoi cyngor ac arweiniad cyfreithiol arbenigol i'r Cyngor, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, a rheoli risgiau cyfreithiol yn effeithiol.
- Sefydlu a chynnal sylfeini llywodraethu cadarn, sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, a meithrin arferion llywodraethu da ledled y Cyngor.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:

- Adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol gydag aelodau etholedig, uwch weithredwyr, cynghorwyr cyfreithiol allanol, cyrff rheoleiddio, a rhanddeiliaid eraill, gan hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynrychioli buddiannau'r Awdurdod Lleol ac eiriol dros newid cadarnhaol o fewn y gymuned.
- Cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ysgogi newid cadarnhaol a gwella darpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys gweithio'n agos gydag aelodau, cyfoedion a sefydliadau partner.



Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro) Proffil Rôl (parhau)

Rhagoriaeth Weithredol:

- Darparu cyngor a chymorth cyfreithiol o ansawdd uchel ar draws sbectrwm eang o feysydd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gontractau, caffael, cyfraith cyflogaeth, ac ymgyfreitha, i aelodau etholedig, uwch reolwyr a thimau gweithredol ar draws y sefydliad.
- Gweithredu fel cynrychiolydd i'r Awdurdod Lleol mewn achosion cyfreithiol, trafodaethau a fforymau, gan ddiogelu ei fuddiannau a'i enw da.
- Nodi'n rhagweithiol risgiau cyfreithiol a llywodraethu i'r Awdurdod Lleol a datblygu strategaethau i liniaru'r risgiau hyn yn effeithiol.
- Gweithredu a chynnal systemau cadarn ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol, cynnal archwiliadau, a mynd i'r afael yn brydlon ag unrhyw faterion diffyg cydymffurfio.

Arweinyddiaeth:

- Gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu ac ymwreiddio diwylliant sefydliad sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymddygiadau a'r perfformiad cywir i sicrhau bod canlyniadau sy'n bodloni Cynllun Corfforaethol ac amcanion strategol y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Cyfrannu at arweinyddiaeth strategol y Cyngor fel aelod allweddol o'r Tîm Arwain Strategol.
- Arwain, cyfarwyddo ac ysbrydoli pobl o fewn yr Ardal Wasanaeth ac ar draws y Cyngor i gyflawni canlyniadau gwych. Sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer nodi a datblygu talent ar bob lefel.
- Drwy eich ymddygiad eich hun, dangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol gan hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor ar draws pob lefel y sefydliad i adeiladu diwylliant y sefydliad.
- Dangos meddwl arloesol, herio'r status quo, a chofleidio syniadau a dulliau newydd o ddatrys problemau, meithrin diwylliant o greadigrwydd ac arloesedd o fewn y tîm.

Dyletswyddau Cyffredinol:

- Gweithio gyda Thîm Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth i ddarparu arweinyddiaeth gref ar gyfer Adnoddau Corfforaethol, gan wneud cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r timau eraill yn y Gyfarwyddiaeth i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar ein gwaith.
- Ystyried cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.





Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro)

Proffil Rôl (parhau)



- Hwyluso'r broses o gyflwyno polisiau, gweithdrefnau ac arfer i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor a chymryd rhan yn y broses honno.
- Sicrhau y caiff egwyddorion cyfle cyfartal eu hintegreiddio a'u dilyn yn weithredol yn y gyfarwyddiaeth ac ym mhob rhan o'r gwasanaeth.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaol â pholisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth y Cyngor gan gynnwys y rhai hynny'n ymwneud â rheoli cyflogaion, iechyd a diogelwch, cysylltiadau cwsmeriaid, diogelu, gwybodaeth, cydraddoldeb, yr amgylchedd a'r rheiny sydd wedi'u nodi yn a Rheolau Ariannol a Gweithdrefnau Contract.

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau uchod, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o newid amgylchiadau, ond nad ydynt o reidrwydd yn newid natur neu lefel cyfrifoldeb y swydd.



Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro)

Manyleb Person



1. Profiad	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Profiad sylweddol mewn rôl gyfreithiol uwch, yn ddelfrydol o fewn cyd-destun llywodraeth leol. ● Profiad profedig fel Swyddog Monitro neu mewn rôl statudol debyg gan sicrhau cydymffurfiaeth a hyrwyddo ymddygiad moesegol. ● Profiad o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol neu gyda swyddogion etholedig. ● Profiad o yrru diwylliant sy'n canolbwyntio ar werthoedd ar bobl ar draws sefydliad. 	DYMUNOL <ul style="list-style-type: none"> ● Profiad o adeiladu timau sy'n perfformio'n dda ac o arwain y sefydliad ehangach yn ysbrydoledig mewn ffordd sy'n gyrru diwylliant sy'n perfformio'n dda. 	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol. ● Cyfweliad.
2. Gwybodaeth	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth ac arferion cyfreithiol perthnasol. ● Dealltwriaeth o ddyletswyddau statudol y Swyddog Monitro. ● Dealltwriaeth o'r fframwaith llywodraeth leol a'i lywodraethu. 	DYMUNOL	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol. ● Cyfweliad.
3. Sgiliau a rhinweddau	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Y gallu i fod yn fodel rôl ar gyfer y cymwyseddau ymddygiadol arweinyddiaeth a hyrwyddo gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor. ● Gallu meddwl yn strategol a datblygu a gweithredu strategaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol. ● Sgiliau arwain rhagorol a gallu rhoi eglurder i'ch tîm ar weledigaeth a phwrpas ei waith. ● Hanes cryf o adeiladu a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, sy'n gallu eirioli dros ragoriaeth, tegwch, a chynwysoldeb. ● Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, gallu dylanwadu ar eraill gydag effaith a hygredded proffesiynol a gallu cyfleu i gymuned amrywiol. 	DYMUNOL	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol. ● Cyfweliad.

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro)

Manyleb Person (parhau)



3. Sgiliau (parhau)	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Yn ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol a chadw i fyny â thueddiadau rheoleiddio ac addysg perthnasol. ● Y gallu i reoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys cyllidebau, staffio a chyfleusterau. 	DYMUNOL	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol. ● Cyfweliad.
4. Cymwysterau a hyfforddiant	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Cyfreithiwr Cymwys. 	DYMUNOL	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol.
5. Agwedd a chymhelliant	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Uwch arweinydd brwdfrydig iawn, sy'n gallu dangos esiampl i aelodau o'r tîm ac i gyfoedion. ● Gallu addasu a bod yn hyblyg i ateb amryw heriau. ● Arweinydd ysbrydoledig, sy'n gallu ennyn diddordeb aelodau o'r tîm i berfformio'n eithriadol mewn amgylchedd heriol. ● Hyrwyddwr newid arloesol, sy'n hapus i herio'r sefyllfa bresennol i gyflawni amcanion strategol a datrys problemau. ● Brwdfrydig wrth ddangos esiampl o ran gwerthoedd y Cyngor. 	DYMUNOL	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● Cyfweliad.
6. Arall	HANFODOL <ul style="list-style-type: none"> ● Hygrededd personol a phroffesiynol. ● Meddu ar gymhelliant, ynni a brwdfrydedd i gynnal agenda eang. ● Gallu gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen. ● Gallu gyrru/ teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol. 	DYMUNOL <ul style="list-style-type: none"> ● Y gallu i ddysgu neu siarad Cymraeg. 	PROFIR TRWY <ul style="list-style-type: none"> ● CV a Llythyr Eglurhaol. ● Cyfweliad.